**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 27 Mawrth 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | Y V Jardine | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jon Franklin | Arweinydd Tîm - Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol** Y Cynghorydd H Gwilliam, Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Fogarty

---

**38 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**39 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**40 Adroddiad ar y Canllaw Cydgysylltu Ardaloedd Lleol.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Jon Franklin, Rheolwr Gweithredu Cydlynu Ardaloedd Lleol, gyda chefnogaeth Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau, i'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi er mwyn iddynt ystyried yr 'Arweiniad ar Gydlynu Ardaloedd Lleol' drafft.

Atodwyd yr 'Arweiniad ar Gydlynu Ardaloedd Lleol' drafft yn Atodiad A ynghyd ag Adroddiad Effaith 2022 a oedd wedi'i atodi yn Atodiad B.

Roedd y fersiwn ddrafft wedi'i chylchredeg i bob Cynghorydd gyda 10 Mawrth fel dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. Roedd ymatebion gan Gynghorwyr wedi bod yn gadarnhaol yn bennaf. Awgrymodd y pwyllgor nifer bach o ddiwygiadau a oedd yn cynnwys mân wallau teipograffyddol. Byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn fersiwn lawn yr arweiniad.

**Penderfynwyd** y byddai'r arweiniad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar ôl i'r diwygiadau gan Gynghorwyr gael eu gwneud.

## 41 Cynllun Gwaith 2022-2023.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023.

**Penderfynwyd** ychwanegu'r eitemau canlynol at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 24 Ebrill 2023:

- Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe - Diweddariad/Adolygiad;
- Polisi Dyledion Corfforaethol - Diweddariad/Adolygiad;
- Rhaglen y Gweithlu'r Gyfarwyddiaeth - Gwasanaethau Cymdeithasol - Diweddariad/Adolygiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.23 pm

**Cadeirydd**